Cyllid & Tollau EM

# CF411A Nodiadau
# Credydau ar gyfer rhieni a gofalwyr

## Rhagarweiniad

Mae'r nodiadau arweiniad hyn yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu i wneud penderfyniad ynghylch pryd i wneud cais am gredydau ar gyfer rhieni a gofalwyr.

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen CF411A

Defnyddiwch y ffurflen CF411A i wneud cais am gredydau Yswiriant Gwladol os ydych yn rhiant sy'n gofalu am blentyn o dan 12 oed ar gyfer cyfnodau o 6 Ebrill 2010 ymlaen.

Efallai y bydd gennych hawl i gael y credydau hyn:

- os ydych yn rhiant maeth cymeradwy neu'n ofalwr maeth/gofalwr sy'n berthynas (yr Alban) cymeradwy
- os mai chi yw priod, partner neu bartner sifil y person sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd i gael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn y gofelir amdano, a'ch bod am drosglwyddo'r hawl i gael y credydau i chi'ch hun
- os mai chi sydd (neu oedd) wedi cofrestru i gael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn y gofalwyd amdano yn y gorffennol, ond bod y credydau awtomatig ar goll o'ch cyfrif Yswiriant Gwladol

## Amgylchiadau eraill

Does dim rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen gais os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn gofalu am un neu ragor o bobl am o leiaf 20 awr yr wythnos, a bod y person neu'r personau rydych yn gofalu amdano neu amdanynt yn cael Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson. Gallwch wneud cais am gredyd gofalwyr yn lle hynny - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/carers-credit
- rydych yn cael Cymhorthdal Incwm pan fyddwch yn gofalu am un neu ragor o bobl, a does dim rhaid i chi fod ar gael i weithio. Byddwch eisoes yn cael credydau yn awtomatig. Os ydych o'r farn bod y credydau ar goll o'ch cyfrif Yswiriant Gwladol, ewch i www.gov.uk/boost-state-pension/eligibility
- rydych yn cael Lwfans Gofalwr - byddwch eisoes yn cael credydau'n awtomatig - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/lwfans-gofalwr
- rydych wedi cofrestru i gael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed - byddwch eisoes yn cael credydau'n awtomatig
- rydych yn rhiant sy'n gofalu am blentyn o dan 16 oed ar gyfer cyfnodau cyn 6 Ebrill 2010. Ewch i www.gov.uk/home-responsibilities-protection-hrp/overview yn lle hynny
- rydych yn aelod o'r teulu sy'n gofalu am blentyn o dan 12 oed pan fyddwch yn perthyn i'r plentyn. Gallwch wneud cais am Gredydau Gofal Plant ar gyfer Oedolion Penodedig yn lle hynny - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/boost-state-pension/overview
  Os ydych yn rhiant, efallai y byddwch hefyd am ddarllen 'Trosglwyddo'r hawl i gredydau ar gyfer rhieni a gofalwyr' ar dudalen 2.

## Rhagor o wybodaeth

Credydau Yswiriant Gwladol wythnosol yw credydau ar gyfer rhieni a gofalwyr. Cawsant eu cyflwyno ar 6 Ebrill 2010, gan ddisodli Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am '*Home Responsibilities Protection*'.

Mae'r credydau hyn yn helpu i ddiogelu'ch hawl i gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth (a gyflwynwyd ar 6 Ebrill 2016). Ni fydd credydau Yswiriant Gwladol yn rhoi'r hawl i chi gael Taliad Cymorth Profedigaeth.

### Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch ynglŷn â rhieni maeth neu ofalwyr maeth/gofalwyr sy'n berthnasau (yr Alban) neu gredydau coll, ewch i www.gov.uk/national- insurance-credits

Neu, cysylltwch â:
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
Tŷ Thedford
Stryd Fawr
PORTHMADOG
Gwynedd
LL49 9BF

Ffôn: 0300 200 1900
Ffôn testun: 0300 200 3519

08:30 – 17:00, Dydd Llun – Dydd Gwener
Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/contact-hmrc

I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth neu Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth

### Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/eichsiarter

# Trosglwyddo'r hawl i gredydau ar gyfer rhieni a gofalwyr

## Terfynau amser ar gyfer gwneud cais

Dylai'ch cais gael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn dreth (5 Ebrill) sy'n dilyn y cyfnod perthnasol yr ydych am drosglwyddo'r credydau ar ei gyfer. Er enghraifft, os yw'r cyfnod trosglwyddo yn ystod y flwyddyn dreth 2016 i 2017, dylech wneud cais i drosglwyddo cyn 5 Ebrill 2018. Os yw'r terfyn amser wedi mynd heibio, llenwch y ffurflen gais o hyd gan egluro pam na wnaethoch gais mewn pryd. Os yw'r amgylchiadau'n rhesymol, gall CThEM dal i ddyfarnu'r credydau, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r amodau trosglwyddo, sef:

- rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl y cyfnod perthnasol
- ni all y person sydd wedi cofrestru i gael Budd-dal Plant gael y credydau gan fod ei enillion yn gyfartal â'r ffactor enillion cymwys ar gyfer y flwyddyn honno, neu'n uwch na'r ffactor hwnnw
- roeddech yn byw gyda'r person a oedd wedi cofrestru i gael Budd-dal Plant ar gyfer y cyfnod perthnasol, ac roeddech yn rhannu'r gofal am blentyn o dan 12 oed
- byddech wedi gallu cofrestru i gael Budd-dal Plant os nad oedd eich priod, eich partner neu'ch partner sifil wedi cofrestru ar ei gyfer

## Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data (DPA) 2018, gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y rhoddwn wybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.